# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 20 EBRILL 2017 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd J P Curtice oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J C Bayliss | P M Black | M C Child |
| R A Clay | U C Clay | A C S Colburn |
| D W Cole | A M Cook | S E Crouch |
| J P Curtice | N J Davies | A M Day |
| P Downing | C R Doyle | V M Evans |
| C R Evans | W Evans | E W Fitzgerald |
| R Francis-Davies | F M Gordon | J E C Harris |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | A J Jones | S M Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M B Lewis | R D Lewis | D J Lewis |
| A S Lewis | C E Lloyd | K E Marsh |
| P M Matthews | P N May | P M Meara |
| H M Morris | J Newbury | D Phillips |
| C L Philpott | J A Raynor | I M Richard |
| C Richards | P B Smith | R V Smith |
| R C Stewart | D G Sullivan | G J Tanner |
| C Thomas | C M R W D Thomas | L G Thomas |
| M Thomas | L J Tyler-Lloyd | G D Walker |
| L V Walton | T M White | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J A Hale, T J Hennegan, P Lloyd, R J Stanton a/ac D W W Thomas

170. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorwyr A M Day, A J Jones, J A Raynor a C Richards fudd personol yng Nghofnod 178 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020";

2) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, C A Holley a L G Thomas fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 179 "Protocol yr Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer" a gadawsant y cyfarfod cyn ei ystyried;

3) Datganodd y Cynghorwyr S E Crouch, P M Meara a D Phillips fudd personol yng Nghofnod 181 "Cwestiynau'r Cynghorwyr".

**Swyddogion**

1) Datganodd Martin Nicholls fudd personol yng Nghofnod 177 "Trefniadau'r Prif Weithredwr".

## 171. COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017.

## 172. YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 173. CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.

**1) Aelod Llywyddol, y Cynghorydd D W W Thomas yn yr ysbyty**

Dywedodd y Dirprwy Aelod Llywyddol fod yr aelod llywyddol, y Cynghorydd D W W Thomas, yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn gwella ar ôl torri ei bigwrn. Ar ran y cyngor, dymunodd bob dymuniad gorau a gwellhad cyflym iddo.

**2) Cynghorwyr nad ydynt yn sefyll am ailetholiad ar 4 Mai 2017**

Dywedodd y Dirprwy Aelod Llywyddol fod y cynghorwyr canlynol wedi dewis peidio ag ailsefyll am etholiad yn yr Etholiad Llywodraeth Leol ar 4 Mai 2017. Talwyd teyrnged i'r cynghorwyr hyn gan arweinwyr y pleidiau gwleidyddol a dirprwy aelodau llywyddol a diolchwyd iddynt am wasanaethu eu cymunedau a phreswylwyr Abertawe yn ystod cyfnod eu swyddi fel cynghorwyr.

| Cynghorydd | Cyngor | Cyfnod y Swydd | | Yr Arglwydd Faer |
|---|---|---|---|---|
| | | O | I | |
| John C. Bayliss | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |
| R (Bob) A Clay | DASA | 04.07.2013 | Presennol | Dd/b |
| Uta C. Clay | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |
| David W. Cole | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |
| Andrew J. Jones | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |
| David J. Lewis | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |
| Paul M. Meara | DASA | 01.05.2008 | Presennol | Dd/b |
| John Newbury | CDA | 07.05.1987 | 31.03.1996 | 2015-2016 |
| | DASA | 04.05.1995 | Presennol | |
| Ioan M. Richard | CBDLI | 14.11.1985 | 31.03.1996 | 2011-2012 |
| | DASA | 04.05.1995 | Presennol | |
| R. June Stanton | CDA | 05.05.1988 | 31.03.1996 | 2013-2014 |
| | CSGM | 04.05.1989 | 31.03.1996 | |
| | DASA | 04.05.1995 | Presennol | |
| Ceinwen Thomas | CDA | 23.05.1990 | 31.03.1996 | 2014-2015 |
| | DASA | 04.05.1995 | Presennol | |
| C. Miles R. W. D. Thomas | DASA | 21.10.2010 | Presennol | Dd/b |
| Neil M. Woollard | DASA | 03.05.2012 | Presennol | Dd/b |

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| DASA | Dinas a Sir Abertawe |
| CBDLI | Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw |
| CDA | Cyngor Dinas Abertawe |
| CSGM | Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg |

## 3) Gwobr Genedlaethol Ffilm Animeddiedig “Go Forward”

Llongyfarchwyd y bobl ifanc, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Winding Snake Productions gan y dirprwy aelod llywyddol am lwyddiant eu ffilm "Go Forward" a enillodd y categori Animeiddiad Gorau: 13 oed a'n hŷn yng ngwobrau ffilm Into eleni.

Ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd "Go Forward" gan 15 o bobl ifanc o Abertawe i fynegi profiadau troeon bywyd taith plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal tuag at droi'n oedolion. Mae'r ffilm yn dangos tri pherson ifanc, 6, 12 ac 16 oed, sy'n ceisio dod o hyd i'w ffordd drwy fyd cymhleth ar ffurf gêm fideo.

Cyrhaeddodd y bobl ifanc y rhestr fer o dros 300 o enwebiadau yn eu categori, a derbyniwyd y wobr ganddynt mewn seremoni grand yn llawn sêr enwog yn Leicester Square, Llundain ym mis Mawrth.

Disgrifiwyd y ffilm gan yr actor a'r beirniad Stephen Mangan fel "yn ardderchog ac yn ddychmygus, yn fedrus iawn yn dechnegol.  Mae ganddi sgript wych ac roeddech yn dod i adnabod pob un o'r plant yn gyflym iawn. Mae'n gadarnhaol ac yn galonogol a mwynheais i'r animeiddio symud ymlaen

parhaol. Mae'n amlwg bod llawer o feddwl a gofal wedi'u cymryd wrth ei chreu. Roeddwn i'n dwlu ar goesau sigledig Josh! Llwyddiant ysgubol".

Mae'r ffilm wedi bod yn gyfle ardderchog i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt leisio eu barn a rhannu eu profiadau gyda phobl ifanc eraill, ymarferwyr a'r cyhoedd.

Llongyfarchodd yr holl staff cysylltiedig ar ran y cyngor. Rydym ni oll yn hynod falch ac edrychwn ymlaen at wylio'ch ffilm yn ddiweddarach.

**4) Newidiadau/cywiriadau i wŷs y cyngor**

Dywedodd y dirprwy aelod llywyddol fod angen newid Gwŷs y Cyngor fel a ganlyn:

Eitem 10 "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020”.
Tudalen 24, paragraff 1.4. Newid "2020" i "2050".

174. **CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.**

**1) Bargen ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

Rhoddodd arweinydd y Cyngor y diweddaraf am Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**2) Y Cynghorydd Christine Richards – Ymddiswyddo fel Aelod y Cabinet**

Diolchodd arweinydd y cyngor i Christine Richards, dirprwy arweinydd y cyngor ac aelod y Cabinet dros blant a phobl ifanc, am ei holl waith caled ac ymrwymiad i'r awdurdod dros y blynyddoedd. Dywedodd fod y Cynghorydd Richards wedi penderfynu ymddiswyddo fel aelod o'r Cabinet a dychwelyd i wleidyddiaeth y meinciau cefn.

Dywedodd y byddai hi'n cael ei chofio am ei dywediad "Mae angen i ni gydlynu o gwmpas plant".

175. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

176. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - DYSGWYR SY'N DERBYN GOFAL - GWOBRAU INTO FILM 2017, "GO FORWARD"**

Dangoswyd y ffilm "Go Forward" gan y dirprwy aelod llywyddol y cyfeiriwyd ati yn ei chyhoeddiadau blaenorol.

Rhoddwyd diolch gan y cynghorwyr C Richards a J A Raynor am y cyflwyniad.

177. **TREFNIADAU'R PRIF WEITHREDWR**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adnoddau) a oedd yn ceisio dilyniant mewn perthynas â swydd y Prif Weithredwr yn dilyn diwedd y trefniadau dros dro ar 31 Mai 2017 a galluogi'r cyngor a etholir ym mis Mai 2017 i benderfynu ar benodiad Prif Weithredwr parhaol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo bod Phil Roberts yn parhau fel Prif Weithredwr tan 31 Hydref 2017.

## 178. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2017-2020.

Cyflwynwyd adroddiad gan aelod y Cabinet dros addysg a oedd am fabwysiadu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2017-2020 terfynol a cheisio caniatâd i gyflwyno'r CSGA 2017-2020 statudol terfynol i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Mabwysiadu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2017-2020 terfynol;

2) Cyflwyno CSGA 2017-2020 statudol terfynol i Lywodraeth Cymru am ei chymeradwyaeth.

## 179. PROTOCOL YR ARGLWYDD FAER A'R DIRPRWY ARGLWYDD FAER.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn mynd i'r afael â materion a godwyd yng Ngweithgor y Cyfansoddiad a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2017. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ychwanegu'r Cynghorydd P M Black yn ôl ar y rhestr o gynghorwyr sy'n debygol o fod yn Arglwydd Faer yn y dyfodol a chytundeb i newid y cyfnodau gwahardd a restrir yn y protocol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol:

1) Rhoi'r Cynghorydd P M Black yn ôl ar y rhestr o gynghorwyr sy'n debygol o fod yn Arglwydd Faer a'i ystyried i fod yn ddirprwy Arglwydd Faer yn 2018-2019;

2) Mabwysiadu'r protocol Arglwydd Faer a dirprwy Arglwydd Faer arfaethedig fel a amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

## 180. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD.

Cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn symleiddio, gwella a/neu ychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd y newidiadau arfaethedig mewn perthynas â'r meysydd canlynol o Gyfansoddiad y Cyngor:

i) Rhan 2 "Erthyglau'r Cyfansoddiad", "Swyddogion" Erthygl 12;

ii) Rhan 3 "Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau", "Cynllun Dirprwyo".

**PENDERFYNWYD:**

1) Newid swyddogaethau'r Swyddog Priodol y cyfeirir atynt yn Erthygl 12.5.2 a 12.5.3 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn caniatáu i naill ai'r Prif Weithredwr a/neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:

   i) Tystio a derbyn datganiadau'r swydd (Adran 83 Deddf Llywodraeth Leol 1972);
   ii) Derbyn datganiadau o ymddiswyddo o swydd (Adran 84 Deddf Llywodraeth Leol 1972);
   iii) Cynnull cyfarfod y cyngor i lenwi sedd wag achlysurol y cadeirydd (Adran 88 Deddf Llywodraeth Leol 1972);
   iv) Derbyn hysbysiad o sedd wag achlysurol gan ddau etholwr llywodraeth leol (Adran 89 Deddf Llywodraeth Leol 1972);

2) Newid rhan 3 “Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau", "Cynllun Dirprwyo", "Swyddogaeth Dewis Lleol – J25" i ddarllen fel a ganlyn:

| Rhif | Swyddogaeth | Dirprwyo Swyddogaethau |
|---|---|---|
| J25 | Swyddogaethau mewn perthynas â chymeradwyaeth gan awdurdod lleol o dan adran 51 neu benderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 53 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.] | Cabinet |

181. **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**
Cyflwynwyd (15) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**
Ni chyflwynwyd unrhyw 'Gwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.25 pm

**CADEIRYDD**